

201- Rhif (Cy.)

201- No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A487
(Llanrhystud, Ceredigion) (Ffordd
Gyfyngedig a Therfyn Cyflymder
40 mya) 201-

The A487 Trunk Road
(Llanrhystud, Ceredigion)
(Restricted Road & 40 mph Speed
Limit) Order 201-

Gwnaed *** 201-
Yn dod i rym *** 201-

Made *** 201-
Coming into force *** 201-

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A487, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 82(1) a (2), 83(1), 84(1)(a) a (2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, ar ôl rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud hynny ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A487 Trunk Road, in exercise of the powers conferred upon them by sections 82(1) and (2), 83(1), 84(1)(a) and (2) and 124 of, and paragraph 27 of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984(1), after giving public notice of their intention to do so and after consultation with the Chief Officer of Dyfed-Powys Police, make this Order.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

Title, Interpretation and Commencement

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Llanrhystud, Ceredigion) (Ffordd Gyfyngedig a Therfyn Cyflymder 40 mya) 201- a daw i rym ar **** 201-.

1. The title of this Order is the A487 Trunk Road (Llanrhystud, Ceredigion) (Restricted Road & 40 mph Speed Limit) Order 201- and it comes into force on **** 201-.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2);

(a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(2);

- (1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
- (2) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddau Cyfundrefinol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29 o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddau a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

- (1) 1984 c.27; section 84(1) was substituted by the Road Traffic Act 1991 (c.40), section 45(2). Section 84(2) was substituted by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), Schedule 8, paragraph 61. By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006, these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.
- (2) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), Schedule 8, paragraph 29, and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor; ac

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfyngiad

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd yn Llanrhystud, Ceredigion sy'n ymestyn i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain o bwynt 145 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4337 (ffordd Llanrhystud i Lanybydder) hyd at bwynt 72 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth sy'n arwain at Ysgol Gynradd Wirfoddol Myfenydd.

Dirymu

4. Dirymir Gorchymyn y Gefnffordd (Llanrhystud, Dyfed) (Ffyrdd Cyfyngedig a Therfyn Cyflymder 40 mya) 1978(3).

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

201-

Richard Morgan

Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(3) O.S. 1978/1556

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director; and

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A487 Fishguard to Bangor Trunk Road.

Restriction

3. No person may drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 40 miles per hour on the length of the trunk road at Llanrhystud, Ceredigion that extends in a north-easterly direction from a point 145 metres north of the centre-point of its junction with the B4337 (Llanrhystud to Llanbydder road) to a point 72 metres north-east of the centre-point of its junction with the unclassified road leading to Ysgol Wirfoddol Myfenydd Primary School.

Revocation

4. The Trunk Road (Llanrhystud, Dyfed) (Restricted Roads and 40 mph Speed Limit) Order 1978(3) is revoked.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated

201-

Richard Morgan

Head of Planning, Asset Management & Standards
Welsh Government

(3) S.I. 1978/1556

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A487
(LLANRHYSTUD, CEREDIGION) (FFORDD
GYFYNGEDIG A THERFYN CYFLYMDER 40
MYA) 201-**

DATGANIAD O'R RHESYMAU

Mae angen y Gorchymyn arfaethedig er budd diogelwch ar y ffordd.

Bydd dwy groesfan heb eu rheoli newydd gydag ynysoedd croesi canolog yn cael eu gosod ar gefnffordd yr A487 ym mhentref Llanrhystud. Bydd un o'r croesfannau y tu allan i'r parth terfyn cyflymder 30 mya presennol. Er mwyn gwella diogelwch cerddwyr sy'n croesi'r gefnffordd, bydd y Gorchymyn arfaethedig yn dirymu'r Gorchymyn terfyn cyflymder 40 mya presennol. O ganlyniad, bydd rhan o'r A487 y mae'r terfyn cyflymder 40 mya yn gymwys iddi ar hyn o bryd yn dychwelyd i statws ffordd gyfyngedig a bydd y terfyn cyflymder yn dychwelyd i 30 mya yn rhinwedd presenoldeb goleuadau stryd, gan estyn hyd y darn o'r A487 y bydd y terfyn cyflymder 30 mya yn gymwys iddo.

Bydd y Gorchymyn arfaethedig hefyd yn ailosod y terfyn cyflymder 40 mya ar ddarn o'r A487 ym mhen gogledd-ddwyreiniol Llanrhystud.

**THE A487 TRUNK ROAD (LLANRHYSTUD,
CEREDIGION) (RESTRICTED ROAD & 40
MPH SPEED LIMIT) ORDER 201-**

STATEMENT OF REASONS

The proposed Order is required in the interest of road safety.

Two new uncontrolled crossing points with central refuge islands will be installed on the A487 trunk road in the village of Llanrhystud. One of the crossing points will be outside the current 30 mph speed limit zone. In order to improve the safety of pedestrians crossing the trunk road, the proposed Order will revoke the existing 40 mph speed limit Order. Consequently, part of the A487 to which the 40 mph speed limit currently applies will return to restricted road status and the speed limit will revert to 30 mph by virtue of the presence of street lighting, thus extending the overall length of the A487 to which the 30 mph speed limit will apply.

The proposed Order will also re-impose the 40 mph speed limit on a length of the A487 at the north-eastern end of Llanrhystud.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A487
(LLANRHYSTUD, CEREDIGION) (FFORDD
GYFYNGEDIG A THERFYN CYFLYMDER 40
MYA) 201-**

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan adrannau 82(1) a (2), 83(1), 84(1)(a) a (2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd gosod terfyn cyflymder 40 mya ar y darn o gefnffordd yr A487 yn Llanrhystud, Ceredigion sy'n ymestyn i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain o bwynt 145 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4337 (ffordd Llanrhystud i Lanybydder) hyd at bwynt 72 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth sy'n arwain at Ysgol Gynradd Wirfoddol Myfenydd. Bydd y Gorchymyn terfyn cyflymder 40 mya presennol drwy'r pentref yn cael ei ddirymu felly bydd darn o'r gefnffordd yn dychwelyd i statws ffordd gyfyngedig a bydd y terfyn cyflymder ar hyd y darn hwnnw o'r ffordd yn dychwelyd i 30 mya yn rhinwedd presenoldeb goleuadau stryd.

Yn ystod cyfnod o 21 o ddiwrnodau o 23 Hydref 2019 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn arfaethedig, ynghyd â phlan, Datganiad o'r Rhesymau dros wneud y Gorchymyn a chopi o'r Gorchymyn sydd i'w ddirymu, yn rhad ac am ddim, yn ystod oriau swyddfa arferol yn swyddfeydd Cyngor Sir Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron SA46 0PA, neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1397139.

Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau yn ysgrifenedig, gan nodi ar ba sail y'u gwneir, i: Y Gangen Orchymynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ neu drwy e-bost i Trafnidiaeth.YGangenOrchymynion@llyw.cymru erbyn 13 Tachwedd 2019. Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, efallai y bydd angen i ni ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses o ymgynghori ag eraill caniateir i ni roi gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn ein galluogi i ymdrin â'r materion yr ydych wedi eu dwyn i'n sylw. Os nad ydych yn dymuno i ddata personol penodol gael eu hanfon ymlaen at drydydd partïon, dylech nodi pam pan fyddwch yn cyflwyno eich gohebiaeth a bydd Gweinidogion Cymru yn copïo'r sylwadau i'r trydydd partïon priodol gyda'r enw a'r cyfeiriad wedi eu dileu. Os bydd Ymchwiliad Cyhoeddus lleol yn cael ei gynnal, bydd yr Arolygydd yn gweld y sylwadau ond

**THE A487 TRUNK ROAD (LLANRHYSTUD,
CEREDIGION) (RESTRICTED ROAD & 40
MPH SPEED LIMIT) ORDER 201-**

The Welsh Ministers propose to make an Order under sections 82(1) and (2), 83(1), 84(1)(a) and (2) and 124 of, and paragraph 27 of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984.

The effect of the proposed Order will be to impose a 40 mph speed limit on the length of the A487 trunk road at Llanrhystud, Ceredigion that extends in a north-easterly direction from a point 145 metres north of the centre-point of its junction with the B4337 (Llanrhystud to Llanbydder road) to a point 72 metres north-east of the centre-point of its junction with the unclassified road leading to Ysgol Wirfoddol Myfenydd Primary School. The existing 40 mph speed limit Order through the village will be revoked so a length of the trunk road will return to restricted road status and the speed limit along that length of road will revert to 30 mph by virtue of the presence of street lighting.

During a period of 21 days from 23 October 2019, a copy of the proposed Order, plan, a Statement of Reasons for the making of the Order and a copy of the Order to be revoked may be inspected, free of charge, during normal office hours at the offices of Ceredigion County Council, Penmorfa, Aberaeron SA46 0PA or may be obtained free of charge from the address below quoting reference number qA1397139.

Objections, specifying the grounds on which they are made, must be sent in writing to Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ or by e-mail to Transportordersbranch@gov.wales by 13 November 2019. Should you wish to object, support or make representations, we may need to consult with people and organisations outside of the Welsh Government. As part of the process of consulting with others we may pass information to them, including information you have given us and your personal data. We will, however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to enable us to deal with issues you have brought to our attention. If you do not wish for certain personal data to be forwarded to third parties, you should state why when submitting your correspondence and the Welsh Ministers will copy the representations to the appropriate third parties with the name and address removed and if there is to be a local Public Inquiry, the representations will be seen by the Inspector who may give them less weight as a result.

efallai y bydd yn rhoi llai o sylw iddynt o ganlyniad i hyn.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Trafnidiaeth, Y Gangen Orchmynion, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Transport, Orders Branch, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government